**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Nodyn ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ddydd Mawrth 27 Chwefror 2018

## Yn bresennol

**Aelodau'r Cynulliad**

Llyr Gruffydd AC (yn y gadair), Mark Isherwood, Jack Sargeant, Mandy Jones a Rhun ap Iorwerth

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Ann Jones AC, Darren Millar AC, Hannah Blythyn AC a Sian Gwenllian AC

Roedd Cynorthwywyr Ymchwil yn bresennol o swyddfeydd Jack Sargeant AC a Mandy Jones AC

**Noddwr yn bresennol (CLlLC)**

Stephen Jones (Cydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Steve Thomas CBE, (Prif Swyddog Gweithredol CLlLC).

**Siaradwyr Gwadd**

Y Cynghorwyr Aaron Shotton (Arweinydd, Cyngor Sir y Fflint) a Dyfrig Siencyn (Arweinydd, Cyngor Gwynedd) Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Bwrdd Twf Gogledd Cymru yn y drefn honno.

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru gydag Andrew Johnson a Gwenllian Roberts.

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Agorwyd y cyfarfod, gyda chworwm, gan Llyr Gruffydd.

## 1. Ethol swyddogion

- Etholwyd Llyr Gruffydd yn Gadeirydd.
- Etholwyd Mark Isherwood ac Ann Jones yn gyd-is-gadeiryddion.
- Etholwyd Stephen Jones yn Ysgrifennydd i weithio dan oruchwyliaeth y Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddion.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cychwynnol a gynhaliwyd ar 24 Mai 2017

- Cytunwyd ar y Cofnodion fel yr argraffwyd hwy.

## 3. Cyfansoddiad

- Cytunwyd ar y cyfansoddiad diwygiedig fel y'i hargraffwyd.

# Y wybodaeth ddiweddaraf

## 4. Cais Twf Gogledd Cymru

Rhoddodd y Cyngh. Shotton drosolwg o Gais Twf Gogledd Cymru fel y'i disgrifiwyd yn Llyfryn Cais Twf a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae'r cais wedi'i drefnu ar sail tair thema, sef Smart, Cysylltiedig a Gwydnwch, gyda 12 ymyriad dros y tair thema. Mae'n ceisio buddsoddiad o tua £380 miliwn, a fyddai'n creu gwariant buddsoddi o tua £1.3 miliwn i gyd drwy ddwyn pwysau.

Mae'r cais yn cael ei hyrwyddo gan glymblaid unedig, drawsbleidiol o Gynghorau a gefnogir gan bartneriaid o feysydd Addysg Uwch, Addysg Bellach a Busnes.

Mae'r Bwrdd Twf wedi mwynhau ymgysylltiad agos â Swyddfa Cymru ac Aelodau Seneddol. Mae'n dymuno ymgysylltu yn yr un modd ag Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhanbarth yn ceisio sicrhau pwerau a swyddogaethau datganoledig, yn ogystal â chyllid.

Mae **<u>Smart</u>** yn cynnwys: -

- Buddsoddi mewn cysylltiadau ynni i gysylltu safleoedd cynhyrchu ynni i'r Grid Cenedlaethol
- Buddsoddi ym Mhorthladd Caergybi i gefnogi mynediad i Wylfa Newydd a hyrwyddo masnach yn fwy cyffredinol
- Cefnogaeth i gyfrwng pwrpas penodol, i ddatblygu safleoedd cyflogaeth a thai o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol, ond, lle mae'r farchnad wedi methu â chyflawni datblygiad.
- Dull gweithredu mwy rhanbarthol o ran datblygu economaidd, a ategir gan gronfa dwf ranbarthol. Byddai'r dull newydd yn hyrwyddo cydweithio agosach rhwng llywodraeth leol a Gwasanaethau Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru, gyda mwy o ffocws rhanbarthol.
- Datblygu canolfannau technoleg arloesol ar draws y rhanbarth.

Mae **<u>Cysylltiedig</u>** yn cynnwys: -

- Buddsoddi mewn cysylltedd digidol (band eang a chysylltedd di-wifr)
- Dull gweithredu mwy rhanbarthol o ran cynllunio a darparu trafnidiaeth

- Cynlluniau i hyrwyddo trafnidiaeth integredig sy'n gysylltiedig â chanolfannau trafnidiaeth, a chysylltu canolfannau trafnidiaeth â chanolfannau cyflogaeth.

Mae **<u>Gwydnwch</u>** yn cynnwys: -

- Gwella sgiliau
- Gwella cyflogadwyedd, a galluogi pobl ar fudd-daliadau i symud i gyflogaeth
- Canolfannau Rhagoriaeth Hyfforddiant (ym maes Twristiaeth, Rheilffyrdd a'r Economi Wledig)

Pwysleisiodd y Cynghorydd Siencyn fod y Cais Twf wedi datblygu'n organig o waith a gyflawnwyd rhwng y chwe chyngor.

Mae'r chwe Arweinydd Cyngor, y mae tri ohonynt yn newydd, wedi ymuno i ffurfio tîm cryf, unedig. Mae hyn wedi dileu unrhyw bryderon bod y Cais Twf yn fwy perthnasol i Ogledd Ddwyrain Cymru na'r rhanbarth yn gyffredinol. Mae consensws y dylai twf ymestyn ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Mae'r Cais Twf yn fwy na rhywbeth plwyfol; mae'n ceisio llais i Ogledd Cymru gael y cyfle i benderfynu ar ein blaenoriaethau ein hunain drwy ddatganoli swyddogaethau a phwerau. Mae'n bosibl y bydd cynghorau'n dirprwyo i fyny i'r Bwrdd Twf i ategu datganoli o ran Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae mwy na'r Fargen Twf ar yr agenda: -

- Trafodaeth fforwm gwledig i fynd i'r afael ag anfantais gwledig, lle mae gweithgarwch economaidd isel mewn ardaloedd gwledig dwfn.
- Y gronfa ffyniant a rennir. Bydd sefydlu'r Bwrdd Twf yn galluogi'r Rhanbarth i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r gronfa ffyniant a rennir yn rhanbarthol.
- Mae Partneriaeth Canolbarth Cymru o ddiddordeb i Dde Gwynedd.

Mae angen strategaeth datblygu gwledig sy'n mynd y tu hwnt i goridor yr A55. Ni all y Cais Twf gyflawni'r anghenion gwledig hyn yn llawn.

Mae tîm y cais, a arweinir gan Iwan Trefor Jones yn edrych ar fanylion y prosiectau a'r cyllid y gall fod ei angen gan Gynghorau i gefnogi'r Cais Twf.

**<u>Trafodaeth</u>**

Gofynnodd Mark Isherwood: -

- Fod y Cais Twf yn gydnaws â blaenoriaethau'r Parthau Menter yng Ngogledd Cymru
- Fod y rhanbarth yn elwa o ran cytundeb y ddwy lywodraeth ar yr angen i wella seilwaith trafnidiaeth
- Fod y Bwrdd Twf yn mynd i'r afael â gwella GVA cymharol, ac yn gwella sefyllfa bresennol GVA cymharol, sy'n lleihau wrth i chi fynd i'r Gorllewin o Fanceinion.

- Fod y cais yn ceisio pwerau gan y ddwy lywodraeth (e.e. Llywodraeth Cymru – ar gyfer pwerau Ariannu Cynyddu Treth, a Llywodraeth y DU – ar gyfer dileu'r cap benthyca tai)

Gofynnodd Llyr Gruffydd AC beth y gallai Aelodau'r Cynulliad ei wneud i gefnogi'r cais.

Atebodd y Cyngh. Shotton fod Cais Twf Gogledd Cymru yn ymwneud â mwy nag adeiladau newydd sgleiniog. Bydd yr holl ranbarth yn elwa o: -

- Sgiliau gwell
- Gwell trafnidiaeth i fynd â phobl i ble mae'r swyddi
- Gwell cysylltedd digidol

Bydd y Bwrdd Twf yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Grŵp Trawsbleidiol ac yn gofyn am help gyda gwaith lobïo pan fo angen.

## 5. Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Nod y cynllun yw sicrhau cynaliadwyedd yr economi drwy: -

- Wella dulliau cyflawni ar gyfer cefnogaeth i'r economi
- Gwella seilwaith ffisegol a digidol
- Gwella sgiliau

Bydd dull gweithredu rhanbarthol newydd o ran datblygu economaidd, gyda Phrif Swyddogion Rhanbarthol.

Bydd cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i fusnes yn destun dull gweithredu cytundebol lle mae'r derbynnydd yn hyrwyddo: -

- Gwaith teg
- Iechyd a Lles (yn enwedig iechyd meddwl da)
- Datgarboneiddio / Effeithlonrwydd Ynni
- Caffael Moesegol

Bydd cyfuniad o arian i gefnogi busnesau a gostyngiadau mewn sectorau a gefnogir.

Bydd cyllidebau trafnidiaeth 5 mlynedd a dadgreiddio contractau i alluogi busnesau bach a chanolig Cymru i wneud cais am waith.

Mae'r Gweinidog yn cefnogi Cais Twf Gogledd Cymru a'r chwe chyngor yn eu gwaith. Bydd yn hwyluso gweithio trawsffiniol (ardal y MDA, Canolbarth Cymru ac Iwerddon).

Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn ceisio sicrhau bod cynlluniau'n gydnaws â'i gilydd ar gyfer LEP Gogledd Cymru a Swydd Caer a Warrington.

Cyffyrddodd y Gweinidog ar y mater o gydweithio o ran y rheilffyrdd, i lobïo am ateb cyfeillgar ar gyfer Gogledd Cymru o ran Canolfan HS2 yn Crewe a gwella gwasanaethau rheilffyrdd i mewn ac allan o Ogledd Cymru drwy'r Fasnachfraint Cymru a'r Gororau newydd.

Bu buddsoddiadau mewn trafnidiaeth integredig yng Nglannau Dyfrdwy y gellir ei gyflwyno ar draws y rhanbarth drwy'r Cais Twf. Mae tocynnau Smart yn ddyhead arall y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ynddi yng Ngogledd Cymru, ac mae hwn yn rhan o'r Cais Twf.

**<u>Trafodaeth</u>**

Roedd Jack Sargeant yn canmol bod cludiant a materion digidol yn flaenoriaethau gan Lywodraeth Cymru. Mae'n awyddus i weld y ffibr rheilffyrdd yn cael ei ddefnyddio i wella cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwledig.

Canmolodd y dyhead i wella cysylltiadau gydag Iwerddon hefyd.

Cododd Mark Isherwood y mater o gyfryngau llywodraethu a darparu cywir, gan holi beth y gallai Awdurdodau Lleol eu pennu o ran pobl a chyllidebau. Gwnaeth sylwadau cadarnhaol ar ffurfioli strwythurau sy'n hwyluso gweithio trawsffiniol.

Mae'n bwysig bod y strwythurau yn gallu dal cynghorau ynghyd a'u partneriaid fel y gwnaeth NWEAB.

Gofynnodd Rhun ap Iorwerth beth oedd yn cael ei wneud i ymgysylltu ag Iwerddon.

Atebodd y Gweinidog y bydd gwelliannau i'r A55 / A494 a'r A483 / A5 yn hwyluso masnach gydag Iwerddon (llwybr TEN-T). Mae'r Llywodraethau mewn trafodaethau ac maent yn gwneud cysylltiadau i drosglwyddo arbenigedd mewn gwyddorau bywyd ac academia.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r cyfarfod. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol: -

- Yn chwilio am syniadau ar gyfer ei raglen waith
- Bydd yn cefnogi'r Awdurdodau Lleol (i sicrhau cais twf a mentrau eraill (e.e. datblygu gwledig, y gronfa ffyniant a rennir, cysylltiadau trawsffiniol)
- Yn hapus i weithio gyda Grŵp Aelodau Seneddol San Steffan (yr APPG)
- Bydd yn cyfarfod nesaf yng Ngogledd Cymru

Rhoddodd y Cyngh. Shotton sicrwydd y bydd y Bwrdd Twf yn darparu gwybodaeth reolaidd am gynnydd ei raglen waith, gan gynnwys y Cais Twf.